

Y WEITHDREFN A ARGYMHELLIR AR GYFER ELECTROLYSIS.

ADEILADAU: Dylai'r rhain fod yn lân yn gyffredinol. Dylai fod arwyneb bwrdd glân ar gael dan orchudd laminiad plastig neu arwyneb anhydraidd arall. Dylai fod gan y gweithredwr fynediad hawdd i ddŵr rhedegog poeth ac oer, sebon a thyweli papur a dylai gweithredwyr olchi eu dwylo cyn ac ar ôl pob sesiwn.

COFNODION: Argymhellir i chi gadw cofnodion o enw a chyfeiriad pob cwsmer, a dyddiad tyllu'r clust. Mae'n bwysig i ymarferwyr proffesiynol gadw cofnodion o'u cwsmeriaid. Bydd cofnodion trylwyr yn werthfawr os bydd mater o heintiad yn codi'n ddiweddarach. Dylid cadw cofnodion am o leiaf un flwyddyn. Bydd dyddyfr neu ddyddiadur yn ddigonol. Gall mynegai cardiaid fod yn gymorth ychwanegol.

GWEITHDREFN:

1. Dylid golchi a sychu'r dwylo cyn gwneud electrolysis.
2. Gofynnwch i'r cwsmer eistedd yn y sedd.
3. Rhwch bapur sidan neu dywel glân ar ben y bwrdd.
4. Glanhewch y rhan i'w diflewio â swab gwirod (e.e. medi-swab).
5. Glanhewch ddwylo'r gweithredwr â swab gwirod ffres.
6. Glanhewch yr efel fain â swab gwirod.
7. Agorwch becyn o nodwyddau wedi'u diheintio'n barod yn ofalus, yn ôl y cyfarwyddiadau. **PEIDIWCH** â chyffwrdd pen miniog y nodwydd.
8. Rhwch y nodwydd yn y peiriant electrolysis a dechreuwch y weithdrefn ddiflewio.
9. Ar ddiwedd y weithdrefn, rhwch nodwyddau yn y blwch pethau miniog – unwaith eto **peidiwch â chyffwrdd** pen miniog y nodwydd. Dylid taflu papur sidan a swabiau mewn bin â leinin plastig
10. Glanhewch groen sydd wedi'i ddiflewio â swab gwirod ffres.
11. Esboniwch yr ôl-ofal wrth y cwsmer.

ÔL-OFAL:

Mae perygl bach o heintiad bacterol ar ôl electrolysis. Dylid cadw'r rhan wedi'i diflewio yn lân. Dylai meddyg drin heintiad – ni ddylid defnyddio hufennau nac eli gwrthfotig oni bai fod meddyg wedi'u rhagnodi. Ar wahân i wirod meddygol, ni ddylid defnyddio diheintyddion gan y gallai'r rhain achosi alergedd.